**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

**Dyddiad: Dydd Mercher, 22 Tachwedd**

**Amser: 2pm**

**Lleoliad: Siambr y Cynulliad Cenedlaethol**

**Teitl: Cysylltiad Aelodau'r Cynulliad â Phenodiadau Cyhoeddus**

## Diben

Gofynnodd y Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf am bapur ynghylch cysylltiad y Rhai a Enwebir i Bwyllgorau Pwnc â Phenodiadau Cyhoeddus. Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb byr o'r cefndir a'r gweithdrefnau cyfredol ac yn rhoi tabl sy'n manylu pwy o'r Rhai a Enwebwyd i Bwyllgor Pwnc a fu'n gysylltiedig â pha ymarferion penodiadau cyhoeddus. Gan mai canolbwynt diddordeb y Pwyllgor mewn penodiadau cyhoeddus yw'r cwestiwn o gyfle cyfartal ac amrywiaeth ceisiadau, mae'r tabl hefyd yn rhoi manylion rhyw, hil ac anabledd yr ymgeiswyr.

## Crynodeb/Argymhellion

Mae'r papur yn gofnod ffeithiol y gofynnir i'r pwyllgor ei nodi.

## Amseru

Gofynnwyd am y papur yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar gyfer y cyfarfod hwn.

## Cefndir

Yn dilyn adolygiad Blackwell o Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru ym ystod mis Hydref 1998, ymgymerodd yr Uned Penodiadau Cyhoeddus â rôl ganolog yn y broses o wneud penodiadau cyhoeddus yng Nghymru. Y Gangen Penodiadau NHS yn yr Is-adran Adnoddau Dynol sydd â'r cyfrifoldeb o wneud penodiadau i'r NHS.

Mae'r Cynulliad yn gyfrifol am ystod ac amrywiaeth eang o benodiadau cyhoeddus yng Nghymru – cyfanswm o tua 600. Mae'r penodiadau'n amrywio o gynghorau iechyd cymuned lleol (cyfanswm o 22 gyda dau aelod yr un wedi'u penodi gan y Cynulliad), a phwyllgorau ymgynghorol proffesiynol arbenigol hyd at gyrff gweithredol gyda chyllidebau gwerth nifer o filiynau o bunnoedd.

Lluniwyd y Cod Ymarfer ym mis Mai 1999. Roedd y cod yn seiliedig ar y canllaw a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

Ym mharagraff 5 o'r cod, pennir bod pwyllgorau pwnc yn penodi dau aelod o'r pwyllgor y mae'n gyfrifol am oruchwylio eu penodiadau cyhoeddus (gydag o leiaf un yn aelod o blaid wleidyddol wahanol i

Ysgrifennydd y Cynulliad).

**Cysylltiad aelodau â'r broses benodi**

Mae'r aelodau'n gysylltiedig â phenodiadau i wahanol raddau, yn dibynnu ar faint a natur y cyrff y penodir ar eu cyfer. Ar gyfer cyrff 'Haen 3' – y rhai lle mae tâl aelodau'n fwy na £3,000 y flwyddyn – mae gan aelodau fwy o gysylltiad nag yn Haenau 1 a 2.

Gwneir yr holl benodiadau gan Weinidog perthnasol y Cynulliad neu Brif Weinidog Cymru. Bydd y Gweinidog yn ymgynghori â'r ddau a enwebwyd i'r pwyllgor pwnc ynghylch y Cynllun Penodiadau (sy'n nodi'r trefniadau hysbysebu'r swydd, y Fanyleb Swydd a Pherson etc.).

Gogyfer â phenodiadau 1 a 2, bydd y Gweinidog yn ymgynghori â'r rhai a enwebwyd unwaith y byddo ef/hi wedi cael cyngor ar lunio rhestr fer gan y panel didoli (fel rheol ni fydd y Gweinidog yn ymwneud â'r broses o ddidoli ar gyfer y penodiadau hyn).

Ar ôl y cyfweliadau, bydd y panel dethol yn gwneud argymhellion i'r Gweinidog a fydd eto'n ymgynghori gyda'r rhai a enwebwyd.

Gogyfer â phenodiadau Haen 3 gall fod gan y Gweinidog gysylltiad personol â'r didoli a'r cyfweliad (er nad hyn yw'r achos bob tro). Lle mae'r Gweinidog yn aelod o'r panel didoli a chyfweld, mae'n arferol wahodd y rhai a enwebwyd i'r Pwyllgor Pwnc i gymryd rhan hefyd.

Mae'r tabl sydd ynghlwm yn dangos i ba raddau y mae gwahanol Weinidogion a rhai a enwebwyd wedi bod yn ymwneud â phenodiadau diweddar, ac ym mha gam o'r broses y digwyddodd hyn.

Mae'r trefniadau hyn yn berthnasol i benodiadau cyrff cyhoeddus, awdurdodau iechyd, Ymddiriedolaethau a chynghorau iechyd cymuned. Gwneir penodiadau ad hoc eraill o bryd i'w gilydd (er enghraifft y Comisiynydd Plant) ac mae'r Uned Penodiadau Cyhoeddus yn rhoi cyngor i ni ar y rheini. Mewn achosion o'r fath, amrywia'r trefniadau, a chysylltiad yr aelodau yn arbennig – er y cyfeirir at feini prawf y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus bob tro.

**Yr Uned Penodiadau Cyhoeddus**

**Tachwedd 2000**

| YMARFER | AELOD/ CADEIRYDD | PENODEDIG | MEN YW OD | ETH NIG | AN ABL | YSGRIFENNYDD Y CYNULLIAD A'R RHAI A ENWEBWYD I BWYLLGOR PWNC |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | YR YMGYNGHORWYD Â HWY AR ÔL Y DIDOLI CYNTAF | AR Y PANEL CYF WELD | YR YMGYNGHORWYD Â HWY AR ÔL Y CYFWELIADAU |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Celfyddydau Cymru | Aelod | 8 | 3 | - | - | TOM MIDDLEHURST AC, CYNOG DAFIS AC a JOHN GRIFFITHS AC | D/G | TOM MIDDLEHURST AC, CYNOG DAFIS AC a JOHN GRIFFITHS AC |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch | Aelod | 3 | 1 | - | - | TOM MIDDLEHURST AC, CYNOG DAFIS AC a JOHN GRIFFITHS AC | D/G | TOM MIDDLEHURST AC, CYNOG DAFIS AC a JOHN GRIFFITHS AC |
| Bwrdd yr Iaith Gymraeg | Aelod | 8 | 4 | 1 | - | TOM MIDDLEHURST AC, CYNOG DAFIS AC a JOHN GRIFFITHS AC | D/G | TOM MIDDLEHURST AC, CYNOG DAFIS AC a JOHN GRIFFITHS AC |
| Bwrdd yr Iaith Gymraeg | Cadeir ydd | 1 | - | - | - | TOM MIDDLEHURST AC, CYNOG DAFIS AC a JOHN GRIFFITHS AC | TOM MIDDLE HURST AC, CYNOG DAFIS AC a JOHN GRIFF ITHS AC | TOM MIDDLEHURST AC, CYNOG DAFIS AC a JOHN GRIFFITHS AC |
| Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth | Aelod | 2 | 1 | - | 1 | TOM MIDDLEHURST AC, CYNOG DAFIS AC a JOHN GRIFFITHS AC | D/G | TOM MIDDLEHURST AC, CYNOG DAFIS AC a JOHN GRIFFITHS AC |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Aelod | 1 | - | - | n/k | TOM MIDDLEHURST AC, CYNOG DAFIS AC a JOHN GRIFFITHS AC | D/G | TOM MIDDLEHURST AC, CYNOG DAFIS AC a JOHN GRIFFITHS AC |
| Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru | Aelod | 3 | 1 | - | - | TOM MIDDLEHURST AC, CYNOG DAFIS AC a JOHN GRIFFITHS AC | D/G | TOM MIDDLEHURST AC, CYNOG DAFIS AC a JOHN GRIFFITHS AC |
| Cyngor Chwaraeon Cymru | Aelodau | 5 | 3 | - | - | TOM MIDDLEHURST AC, CYNOG DAFIS AC a JOHN GRIFFITHS AC | D/G | TOM MIDDLEHURST AC, CYNOG DAFIS AC a JOHN GRIFFITHS AC |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru | Cadeir ydd | 1 | - | - | - | ROSEMARY BUTLER AC, LORRAINE BARRETT AC a WILLIAM GRAHAM AC | ROSE MARY BUTLER AC, LORRAINE BARRETT AC a WILLIAM GRAHAM AC | ROSEMARY BUTLER AC, LORRAINE BARRETT AC a WILLIAM GRAHAM AC |
| | Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru | Aelodau | 12 | 4 | - | - | ROSEMARY BUTLER AC, LORRAINE BARRETT AC a WILLIAM GRAHAM AC | D/G | ROSEMARY BUTLER AC, LORRAINE BARRETT AC a WILLIAM GRAHAM AC |
| | Cyngor Addysg a Hyfforddiant | Cadeir ydd | 1 | 1 | - | - | TOM MIDDLEHURST AC, CYNOG DAFIS AC a JOHN GRIFFITHS AC | TOM MIDDLE HURST AC, CYNOG DAFIS AC a JOHN GRIFF ITHS AC | TOM MIDDLEHURST AC, CYNOG DAFIS AC a JOHN GRIFFITHS AC |
| * | Cyngor Addysg a Hyfforddiant | Aelod | HEB EI BENODI ETO | | | | | | |
| * | Y Comisiwn Archwilio | Aelod | HEB EI BENODI ETO | | | | | | |
| | Bwrdd Croeso Cymru | Aelod | 3 | 1 | 0 | 0 | RHODRI MORGAN AC, MIKE GERMAN AC ac ANNE JONES AC | RHODRI MORGAN AC, MIKE GERMAN AC ac ANNE JONES AC | RHODRI MORGAN AC, MIKE GERMAN AC ac ANNE JONES AC |
| * | Awdurdod Datblygu Cymru | Aelodau | HEB EU PENODI ETO | | | | | | |
| | Bwrdd Henebion Cymru | Aelodau | 3 | 1 | 0 | 0 | SUE ESSEX AC, ALISON HALFORD AC a JANET RYDER AC | D/G | SUE ESSEX AC, ALISON HALFORD AC a JANET RYDER AC |
| | Asiantaeth Safonau Bwyd | Aelodau | 8 | 3 | 0 | 0 | JANE HUTT AC, KIRSTY WILLIAMS AC a DAVID MELDING AC | D/G | JANE HUTT AC, KIRSTY WILLIAMS AC a DAVID MELDING AC |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyngor Cefn Gwlad Cymru | Cadeir ydd | 1 | 0 | 0 | 0 | SUE ESSEX AC, IEUAN WYN JONES AC a KAREN SINCLAIR AC | D/G | SUE ESSEX AC, IEUAN WYN JONES AC a KAREN SINCLAIR AC |
| * | Cyngor Cefn Gwlad Cymru | Aelodau | HEB EU PENODI ETO | | | | | | |
| | Tasglu Ymgynghorol y Fargen Newydd yng Nghymru | Aelodau | 16 | 5 | 0 | 0 | TOM MIDDLEHURST AC, CYNOG DAFIS AC a JOHN GRIFFITHS AC | D/G | TOM MIDDLEHURST AC, CYNOG DAFIS AC a JOHN GRIFFITHS AC |
| | Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy | Aelodau | 19 | 7 | 2 | 0 | CARWYN JONES AC a KAREN SINCLAIR AC | D/G | CARWYN JONES AC a KAREN SINCLAIR AC |
| * | Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol | Aelod | HEB EI BENODI ETO | | | | | | |
| * | Bwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiant Cymru | Cadeir ydd | HEB EI BENODI ETO | | | | | | |
| * | Bwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiant Cymru | Aelod(au) | HEB EU PENODI ETO | | | | | | |
| * | Bwyd o Brydain | Aelod | HEB EI BENODI ETO | | | | | | |
| * | Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol | Aelodau | HEB EU PENODI ETO | | | | | | |
| * | Awdurdod Diwydiant y Pysgod Môr | Aelodau | HEB EU PENODI ETO | | | | | | |
| * | Comisiynydd Plant Cymru | D/G | HEB EU PENODI ETO | | | | | | |

| YMARFER | AELOD/ CADEIRYDD | PENODEDIG | MEN YWOD | ETHNIG | ANABL | YSGRIFENNYDD Y CYNULLIAD AC ENWEBWYR PWYLLGOR PWNC |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedol<br><br>aethau NHS | Cyfarwyddwyr Anweithredol | 24 | 8 | 1 | - | Kirsty Williams AC a David Melding AC, ymgynghorir â dau enwebwr o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar bob cam o'r broses benodi, llunio rhestr fer ac argymhellion terfynol. |
| Ymddiriedol<br><br>aethau NHS | Cadeirydd<br><br>ion | 2 | 1 | - | - | Mae Kirsty Williams AC a David Melding AC yn rhan o'r broses gyfweld ar gyfer penodiadau Cadeirydd. Roedd Kirsty Williams yn y cyfweliadau am Ymddiriedolaeth NHS Powys, David Melding am Ymddiriedolaeth NHS Ceredigion a Chanolbarth Cymru. Bu i Jane Hutt, y Gweinidog Iechyd gadeirio |
| Awdurdodau Iechyd | Cyfarwyddwyr Anweithredol | 15 | 5 | - | - | Ymgynghorodd Kirsty Williams AC a David Melding AC yn ystod y cam llunio rhestr fer ac argymhellion terfynol. |
| Cynghorau Iechyd Cymuned | Aelodau | 25 | 17 | - | 5 | Ymgynghorodd Kirsty Williams AC a David Melding AC yn ystod y cam llunio rhestr fer ac argymhellion terfynol. |
| Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaeth<br><br>au Ymwelwyr Iechyd | Cadeirydd | 1 | 1 | - | - | Ymgynghorodd Kirsty Williams AC a David Melding AC yn ystod y cam llunio rhestr fer ac argymhellion terfynol. |

Darparwyd yr wybodaeth gan Gangen Penodiadau'r NHS